

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Neuadd Coed Du

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror
– 2 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflawni gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	27
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	32
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	33
	Atodiad B – Cynllun gwella – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiau a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Neuadd Coed Du ar noswaith 28 Chwefror 2022 a'r ddau ddiwrnod canlynol, sef 1 a 2 Mawrth.

Ymwelwyd â'r safleoedd ac unedau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Ynn – Uned saith gwely ar gyfer cleifion benywaidd
- Uned Ffawydd – Uned pum gwely ar gyfer cleifion gwrywaidd
- Uned Cedrwydd – Uned rhywedd cymysg ar gyfer hyd at chwe chlaf
- Swît Stiwdio – Swît rhywedd cymysg ar gyfer pedwar claf

Ar adeg yr arolygiad, dim ond un claf oedd yn cael ei letya yn y stiwdio ac nid oedd y tîm arolygu yn ymweld â'r ardal hon.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd arbenigwr drwy brofiad. Arweiniodd arolygydd AGIC yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfedd â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm staff ymroddedig a oedd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad.

Gwnaeth cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus, gan nodi eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael.

Fodd bynnag, mae angen gwella lefel y glanweithdra mewn rhai ardaloedd i gleifion a gellid gwella cynlluniau gofal cleifion hefyd.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn barchus
- Roedd gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant
- Roedd y cleifion yn derbyn amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau
- Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen ailaddurno rhai ardaloedd i gleifion
- Glendid yr ysbyty
- Adolygu a diweddarau'r archwiliad pwyntiau clymu
- Defnydd y staff o larymau neu setiau radio
- Cynlluniau gofal y cleifion
- Recriwtio staff i swyddi gwag

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn a oedd yn gofyn am gamau unioni ar unwaith.

Nodwyd achosion o dorri'r rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn o ran gwybodaeth y staff o ble y cedwir silindrau ocsigen a sut y gallai staff gael mynediad at y silindr ocsigen mewn argyfwng. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfedd â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Neuadd Coed Du wedi ei chofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn Neuadd Coed Du, Nant Alyn Road, Rhyd-y-mwyn, Yr Wyddgrug, CH7 5HA.

Mae gan y gwasanaeth 22 o welyau cofrestredig ac mae'n cynnwys Uned Ynn gyda saith gwely, Uned Ffawydd gyda phum gwely, Uned Cedrwydd gyda chwe gwely, a phedair ystafell wely stiwdio sengl. Mae Uned Ynn ac Uned Ffawydd yn unedau rhywedd penodol.

Mae Uned Ynn ac Uned Cedrwydd yn darparu ar gyfer cleifion rhwng 18 a 65 oed ac mae Uned Ffawydd ar gyfer cleifion dros 65 oed. Mae'r ysbyty'n darparu ar gyfer cleifion y mae eu priif angen am ofal a thriniaeth yn deillio o ddiagnosis o salwch meddwl. Ar adeg yr arolygiad, roedd deg claf.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi rheolwr ysbyty, ond, ar adeg yr arolygiad, roedd y rheolwr ysbyty presennol yn gadael ac roedd rheolwr ysbyty newydd ei benodi yn aros i ddechrau yn ei swydd.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatrydd ymgynghorol; mae swydd y seicolegydd a swydd y therapydd galwedigaethol yn wag. Mae cyfweiliadau ar gyfer y swyddi hyn i fod i gael eu cynnal. Roedd tîm o gynorthwywyr therapi galwedigaethol yn eu swyddi ynghyd â thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd timau penodedig o staff gweinyddol, cynnal a chadw, arlwyo a domestig yn cefnogi gweithrediad beunyddiol yr ysbyty.

Cofrestrodd y gwasanaeth ar 1 Ebrill 2002.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Gwnaeth cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd ystod o weithgareddau a therapïau addas ar gael yn Neuadd Coed Du, i gynorthwyo adsefydliad y cleifion.

Cafodd y diffyg glendid yn yr ysbyty effaith negyddol ar brofiad y claf.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gan Neuadd Coed Du amrywiaeth o gyfleusterau i gefnogi darparu therapïau a gweithgareddau. Mae cerbydau ysbyty ar gael i gynorthwyo staff i hwyluso gweithgareddau cleifion ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Roedd cofnodion cleifion yn dangos eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol, a oedd yn cefnogi gwellhad ac adsefydlu.

Roedd tîm therapi galwedigaethol penodedig yn yr ysbyty a oedd yn darparu ystod o asesiadau a gweithgareddau i gefnogi adsefydlu cleifion.

Roedd gan Neuadd Coed Du gegin therapi galwedigaethol y gallai cleifion gael mynediad iddi i baratoi prydau, gyda chymorth gan staff yn ôl yr angen. Yn ogystal, roedd gan bob uned gegin fach y gallai cleifion ei defnyddio'n annibynnol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden, gyda llawer o gleifion yn defnyddio absenoldeb adran 17¹ o'r ysbyty yn rheolaidd i gael mynediad i'r gymuned leol.

Mae'r ardal fwyta gymunol yn fawr ac fe'i defnyddir hefyd ar gyfer gweithgareddau y tu allan i amser bwyd. Roedd cofnodion cleifion yn cofnodi cyfranogiad mewn gweithgareddau.

Roedd hysbysfyrddau'n dangos gwybodaeth berthnasol, ond roedd peth o'r wybodaeth wedi dyddio gyda hysbysiadau Nadolig yn cael eu harddangos.

Roedd gan bob uned ei lolfa ei hun lle gallai cleifion ymlacio pan nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cael offer electronig yn eu hystafelloedd gwely fel teledu, system gerddoriaeth a chonsolau gemau.

Roedd gan y cleifion fynediad anghyfyngedig i ardd gaeedig fel eu bod yn gallu cael awyr iach yn rhwydd. Roedd y staff hefyd yn hwyluso teithiau cerdded o amgylch tiroedd yr ysbyty a'r gymuned leol.

Roedd gan staff fynediad at dri cherbyd ysbyty dynodedig a oedd yn galluogi staff i hwyluso gweithgareddau, lleoliadau gwaith gwirfoddol ac apwyntiadau meddygol i'r cleifion yn y gymuned.

Roedd y cleifion yn gallu cyrchu meddygon teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr proffesiynol iechyd corfforol eraill yn ôl yr angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod hysbysfyrddau'n cael eu diweddarau

¹ Adran 17 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yw awdurdodi absenoldeb claf a gedwir o'r ysbyty.

Urddas a pharch

Gwnaethom nodi bod pob gweithiwr – staff yr uned, uwch staff rheoli a staff gweinyddol – yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roedden nhw'n cefnogi ac yn gofalu am y cleifion. Gwelsom staff yn cymryd amser i siarad â chleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a godwyd gan y cleifion; dangosodd hyn fod gan staff agweddau ymatebol a gofalgar tuag atynt.

Roedd y cleifion y siaradwyd â nhw yn canmol ymgysylltiad y staff a'r gofal a ddarperir yn yr ysbyty.

Yn ystod yr arolygiad, wrth gerdded heibio swyddfa'r nyrsys, gwelsom waith papur arsylwi ar gyfer un claf yr oedd modd i'w weld. Gallai unrhyw un oedd yn cerdded heibio'r swyddfa weld y gwaith papur hwn yn glir. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn diogelu cyfrinachedd cleifion drwy sicrhau na all eraill ddarllen gwaith papur bob amser.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, y gallai staff eu hagog pe bai angen gwneud hynny. Roedd yr ystafelloedd gwely yn darparu safon uchel o breifatrwydd ac urddas i gleifion. Roedd yr ystafelloedd gwely'n cynnig man storio addas, ac roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd â lluniau a phosteri.

Dywedodd y cleifion wrthym fod staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom sawl enghraifft o staff yn cnocio ar ddrysau ystafelloedd gwely cyn mynd i mewn iddynt.

Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw baneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely, ac mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r staff agor drysau'r ystafelloedd gwely i arsylwi cleifion yn ystod y nos, a all amharu ar gwsg y claf. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn gallu gwirio cleifion heb fawr o darfu a dylai ystyried gosod paneli arsylwi.

Roedd gan Neuadd Coed Du ystafelloedd addas i gleifion gwrdd â staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd trefniadau ar gyfer mynediad i ffôn fel bod cleifion yn gallu gwneud galwadau a derbyn galwadau yn breifat. Yn dibynnu ar asesiad risg unigol, roedd cleifion yn gallu cael mynediad i'w ffonau symudol eu hunain.

O ganlyniad i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth coronafeirws (COVID-19), cafodd ymwelwyr eu hannog i gyfarfod mewn cyfleusterau cymunedol lleol. Fodd bynnag, roedd rhai ymweliadau'n cael eu cynnal a gallai cleifion gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau trwy alwadau ffôn a fideo.

Cyfrannodd polisiâu'r ysbyty a'r arferion staff a welsom at gynnal urddas cleifion a gwella gofal unigol yn yr ysbyty. Roedd cyfarfodydd uned rheolaidd i adolygu a thrafod arferion er mwyn lleihau'r cyfyngiadau ar gleifion yn seiliedig ar y risgiau i gleifion unigol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod staff yn cadw gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn swyddfa'r nyrsys
- Ei fod yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod staff yn gallu gwirio lles cleifion yn eu hystafelloedd gwely heb fawr ddim amhariad

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Mae canllaw gwybodaeth i gleifion ar gael i berthnasau/gofalwyr, yn ogystal â datganiad o ddiben ysgrifenedig yr ysbyty. Gwelsom bosteri eirioli oedd yn darparu manylion cyswllt ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth. Roedd tystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gwybodaeth ar sut i godi cwyn yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth ddwyieithog yn yr ysbyty. Bydd gwybodaeth ddwyieithog yn helpu'r cleifion ac ymwelwyr y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt i ddeall eu gofal.

Roedd cynrychiolwyr o'r gwasanaeth eirioli yn ymweld â chleifion, ac ar ben hynny roedd y cleifion yn gallu cysylltu â chynrychiolydd o'r gwasanaeth eirioli statudol naill ai dros y ffôn neu drwy wneud apwyntiad i siarad â chynrychiolydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn ddwyieithog.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nododd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pe bai angen. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus yn yr ysbyty a bod y staff yn garedig ac yn barod eu cymwynas. Roedd parch ar y cyd amlwg a sicrwydd perthynas cryf rhwng staff a chleifion.

Gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol mewn cyfarfodydd unigol i ddarparu cymorth ac arweiniad ar eu cyfer, megis cyfreithwyr neu gynrychiolwyr eirioli. Gyda chytundeb cleifion, lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd wedi'u cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Roedd cyfarfod dyddiol yn y bore lle'r oedd staff yn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd ac apwyntiadau meddygol. Trafodir unrhyw ddigwyddiadau, pryderon neu faterion cynnal a chadw a chytunir ar gamau gweithredu.

Roedd yr ysbyty yn cynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd lle mae'r cleifion neu eu cynrychiolydd etholedig yn cyfarfod â'r tîm clinigol i drafod eu gofal a chynllunio gofal ar gyfer y dyfodol.

Roedd gan yr ysbyty fforwm cleifion misol lle roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Roedd yr arweinydd clinigol a'r tîm therapi galwedigaethol yn mynychu'r fforwm cleifion hefyd i sicrhau bod y cyfarfod yn ystyrlon ac o fudd i'r cleifion.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar adsefydlu gyda gofal cleifion unigol a gefnogwyd gan arferion lleiaf cyfyngol, wrth gynllunio gofal ac yn arferion yr ysbyty.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol unigol ei hun; roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, o fewn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd yr awdurdodiad gofynnol i adael yr ysbyty yn ei le).

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod adolygiadau amlddisgyblaethol misol yn cael eu cynnal a bod cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses.

Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar unigolion a bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd strwythuredig i alluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o gyfranogiad amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal; helpodd hyn i gynorthwyo'r ysbyty i allu darparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Darparodd Neuadd Coed Du amgylchedd adsefydlu i gleifion ag ystod eang o gyfleusterau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda i gefnogi'r ddarpariaeth o therapïau a gweithgareddau. Mae'r tîm therapi galwedigaethol yn cynnal asesiadau o alluoedd pob claf a pha therapïau, cymorth a gweithgareddau a fyddai'n fuddiol i'w cynorthwyo i wella.

Yn ogystal, rhoddodd y pedair ystafell stiwdio yn yr ysbyty gyfle i gleifion gael mwy o annibyniaeth o fewn amgylchedd yr ysbyty a chael gofal a chymorth gyda llai o fewnbwn gan staff wrth iddynt baratoi i gael eu rhyddhau i leoliad byw'n annibynnol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff wedi'u halinio â pholisïau a systemau sefydliadol sefydledig a oedd yn cynnal cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion. Roedd dyluniad yr ysbyty a pholisïau sefydliadol yn sicrhau amgylchedd hygyrch i bobl a allai fod ag anghenion symudedd.

Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir i gadw cleifion yn yr ysbyty.

Roedd dogfennau ar gyfer defnyddio'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith, a oedd yn sicrhau dilysrwydd awdurdodiadau o dan y trefniadau hyn.

Roedd gan yr ysbyty ystafell aml-ffydd a llenyddiaeth berthnasol ar gael i gefnogi cleifion wrth iddynt addoli yn eu dewis crefydd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfarfodydd ac arolygon cleifion rheolaidd i ganiatáu i gleifion roi adborth ar ddarpariaeth y gofal yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i hysbysu perthnasau a gofalwyr ar sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gweithredu gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniad yr arolwg cleifion.

Roedd polisi a gweithdrefn gwynion ar waith. Roedd y polisi yn darparu strwythur ar gyfer delio â'r holl gwynion o fewn yr ysbyty.

Gwnaeth sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol y gwnaethom eu hadolygu ddangos bod unigolyn annibynnol yn cael ei neilltuo i ymchwilio i'r cwynion ac y cymerwyd camau yn unol â pholisi cwynion y sefydliad ac yr ymdrinnir â chwynion yn briodol yn yr ysbyty.

Mae cofnodion cleifion unigol yn cynnwys manylion y cwynion a wnaed ganddynt ynghyd â chanlyniad y gŵyn. Roedd rheolwr yr ysbyty yn goruchwyllo'r broses

gwynion ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig. Roedd gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y broses gwynion hefyd.

Cyflawni gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Cynhelir yr amgylchedd ffisegol yn Neuadd Coed Du i safon dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd y mae angen eu gwella.

Canfuom fod staff yn cwblhau prosesau a dogfennau clinigol yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, mae angen rhai gwelliannau gyda chynlluniau gofal.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r trefniadau wrth amddifadu o ryddid yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Neuadd Coed Du brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau ac i gynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty'n darparu gofal unigol i gleifion a gefnogwyd gan arferion lleiaf cyfyngol, wrth gynllunio gofal ac yn arferion yr ysbyty neu'r uned.

Roedd gan yr ysbyty larymau i'r staff eu gwisgo i'w galluogi i alw'n hawdd am gymorth os oedd angen, megis argyfwng meddygol claf neu er diogelwch corfforol eu hunain neu eraill. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi nad oedd nifer o staff yn defnyddio setiau radio na larymau personol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu darpariaethau diogelwch ar gyfer staff yn yr ysbyty a sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio setiau radio a larymau staff i gynorthwyo diogelwch staff a chleifion ar yr unedau.

Roedd manau galw nyrsys hefyd o amgylch yr unedau ac o fewn ystafelloedd gwely cleifion fel y gallai cleifion alw am gymorth pe bai angen. Fodd bynnag, nid oedd un pwynt galw o fewn toiled yn Uned Ffawydd o fewn cyrraedd hawdd i'r

toiled neu'r bath, felly gallai fod yn anodd i rywun yn yr ardal honno alw am gymorth.

Roedd drysau ystafelloedd gwely cleifion yn rhoi rhybudd os oedd y claf yn yr ystafell wedi agor ei ddrws i adael ei ystafell wely, gan hysbysu'r staff fel y gallent gefnogi a monitro symudiadau'r claf.

Mae matiau pwysu ar gyfer cleifion sy'n dueddol o gwympo yn hysbysu'r staff bod y claf yn codi o'r gwely. Roedd cymhorthion hefyd ar gael i gefnogi'r claf i reoli hyn mor annibynnol â phosibl.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg cyfredol ar gyfer pwyntiau clymu ar waith. Fodd bynnag, mae angen adolygu a gwella'r rhain i sicrhau bod y risg yn fanwl, yn cael ei gwerthuso ac yn benodol. Yn ogystal, dylai rheolwr yr ysbyty baratoi cynllun rheoli risg priodol, yn amlinellu sut i reoli a lliniaru risgiau clymu.

Roedd gan yr ysbyty gynllun parhad busnes ar waith, a oedd yn cynnwys ymatebion y gwasanaeth i faterion fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau, ac achosion o glefyd heintus.

Ystyriodd y tîm arolygu amgylchedd yr ysbyty yn ystod taith o amgylch yr ysbyty ar y noson gyntaf a dyddiau canlynol yr arolygiad. Daeth arsylwadau'r arolygwyr i'r casgliad fod angen gwelliannau ar rai rhannau o'r ysbyty gan nad oedd rhai rhannau yn lân ac roedd angen eu hailaddurno. Roedd yr ardaloedd lle mae angen mwy o welliannau i wella profiad cleifion fel a ganlyn:

- Nodwyd arogl annymunol hefyd yn yr ystafell golchi dillad ac ystafell ymolchi Uned Ynn ar noson gyntaf yr arolygiad
- Roedd angen ail-baentio rhai o'r ardaloedd cymunol i gleifion i wneud yr ardaloedd hyn yn fwy dymunol
- Roedd yn ymddangos bod drysau ledled yr ysbyty wedi treulio, wedi'u marcio ac yn fudr

Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y diffoddwyr tân yn y coridorau cymunol mewn man agored ac nad oeddent wedi'u storio yn y cypyrddau. Gallai hyn achosi risg bosibl i staff a chleifion. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y diffoddwyr yn cael eu storio'n ddiogel wrth fod yn hawdd eu cyrraedd mewn argyfwng o hyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl staff yn defnyddio larymau personol
- Bod manau galw nyrsys wedi'u lleoli'n briodol mewn ystafelloedd ymolchi, o fewn cyrraedd cleifion
- Bod archwiliadau pwyntiau clymu yn fwy manwl
- Bod yr ystafell golchi dillad ac ystafell ymolchi ar Uned Ynn yn cael eu glanhau
- Bod drysau ledled yr ysbyty yn cael eu glanhau a'u hailbaentio
- Bod ardaloedd cymunol i gleifion yn cael eu hailbaentio
- Bod diffoddwyr tân yn cael eu storio'n ddiogel

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Cafodd system o archwilio trefniadau rheoli heintiau yn rheolaidd ei disgrifio. Cwblhawyd hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau priodol lle bo angen.

Dywedwyd wrthym fod staff cadw tŷ yn absennol o'r gwaith a bod y swydd wag wedi'i hysbysebu. O ganlyniad, yn ogystal â dyletswyddau gofalu, roedd staff hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau glanhau ychwanegol. Mae'n bwysig bod y swydd cadw tŷ yn cael ei llenwi er mwyn i staff allu cyflawni eu prif rôl o ofalu am y cleifion.

Er bod staff wedi ceisio parhau ag amserlenni glanhau, roedd angen glanhau rhai rhannau o'r ysbyty yn fwy arbenigol ac effeithiol.

Roedd offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel y gallai'r cleifion olchi eu dillad eu hunain â lefel briodol o gymorth gan staff yn seiliedig ar anghenion unigol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod Neuadd Coed Du wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni gofynion ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau o ran rheoli heintiau. Gwnaethom hefyd archwilio dogfennau COVID-19, a luniwyd i

gynorthwyo staff a sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Dangosodd staff eu bod yn cydymffurfio â phrotocolau COVID-19 ar gyfer ymwelwyr. Roedd y staff yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r ysbyty tra oedd y tîm arolygu ar y safle.

Roedd Neuadd Coed Du wedi neilltuo ardal lle roedd modd ynysu claf a rhoi gofal nyrsio ataliol iddo yn ei ystafell wely mewn ardal warchoddedig pe bai'n datblygu symptomau COVID-19. Roedd amserlenni glanhau ychwanegol ar waith hefyd.

Roedd cyfathrebu rheolaidd trwy gyfarfodydd, byrddau gwybodaeth a negeseuon e-bost yn sicrhau bod gan bawb y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Yn ystod ein trafodaethau, nid amlygwyd unrhyw faterion o ran mynediad at gyfarpar diogelu personol. Roedd cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys masgiau a menig, ar gael wrth fynedfa'r uned ac roedd biniau wedi'u darparu ar gyfer cael gwared ar gyfarpar. Roedd staff yn gwisgo masgiau mewn mannau cymunol yn yr ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y swydd cadw tŷ wag yn cael ei llenwi.

Maethiad

Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt ddewis o beth i'w fwyta. Gwnaethom samplu detholiad o brydau ac roedd y rhain yn edrych yn flasus ac yn blasu'n dda iawn.

Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod arolwg cleifion diweddar yn dangos bod 100% o gleifion yn fodlon ar y prydau a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd hefyd yn gadarnhaol iawn gweld bod y cogydd wedi cyfarfod yn unigol â phob claf i gasglu gwybodaeth am eu hoff fwyd er mwyn creu bwydlen a oedd yn addas ar gyfer anghenion pob claf.

Roedd ffrwythau ffres ar gael yn rhwydd i'r cleifion a mynediad at ddiodydd yn yr ystafell fwyta ac ardaloedd yr unedau.

Fel rhan o ofal adsefydlu cleifion, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r gegin therapi galwedigaethol neu geginau bach y stiwdios i baratoi eu prydau eu hunain, a oedd yn eu galluogi i gynnal a dysgu sgiliau coginio. Lle'r oedd

absenoldeb adran 17 wedi'i awdurdodi i'r cleifion, gallent hefyd siopa am fwyd fel rhan o'u gweithgareddau adsefydlu â ffocws yn y gymuned.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio cyfleusterau'r ysbyty i wneud byrbrydau ac roeddent yn gallu archebu cyflenwadau tecawê i'r ysbyty.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd archwiliad fferyllfa allanol rheolaidd yn cael ei ddarparu, a oedd yn cynorthwyo'r gwaith o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau yn yr ysbyty. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nifer o feysydd sydd angen eu gwella.

Gwelsom nifer o rowndiau meddyginiaeth, a gwelsom fod staff yn ymgymryd â'r rhain yn briodol ac yn broffesiynol, ac yn rhyngweithio â chleifion mewn modd parchus ac ystyriol.

Roedd yr ystafelloedd clinigol diogel yn atal mynediad heb awdurdod. Roedd meddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel mewn cypyrddau y gellir eu cloi ac oergelloedd meddyginiaeth. Fodd bynnag, ar noson gyntaf yr arolygiad roedd yr oergell feddyginiaeth heb ei chloi. Gwnaethom hysbysu rheolwr yr ysbyty, a atgoffodd y staff am eu cyfrifoldebau o ran cloi'r oergell pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Roedd yna dystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd o'r oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar dymheredd argymelledig y gwneuthurwr.

Roedd rhai rhannau o'r ystafelloedd clinigol i'w gweld yn anniben, gydag eitemau'n cael eu storio ar ben y cypyrddau meddyginiaeth, sy'n golygu bod risg y byddai eitemau'n cwmpo a bydd hyn yn effeithio ar lanhau'r ardal hon yn effeithiol. Gwelsom hefyd rai meddyginiaethau oedd wedi mynd yn hen, sef Lorazepam a Cetirizine, a oedd wedi dod i ben ym mis Hydref 2021.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y clinig ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n debygol o gael eu camdefnyddio. Roedd cofnodion yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ddwywaith y dydd gyda llofnodion priodol yn tystio bod y gwiriadau wedi'u cwblhau. Dywedodd staff wrthym y gallai gweithwyr cymorth gofal iechyd hyfforddedig hefyd gyflawni'r rôl hon ochr yn ochr â nyrs gofrestredig, ond roedd diffyg gwybodaeth ymhlith y staff ynghylch pwy oedd wedi'u hyfforddi.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau mai dim ond staff hyfforddedig sy'n cyflawni'r rôl ail lofnod a bod yr holl staff yn gwybod pa staff sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni'r dasg hon.

Roedd yn gadarnhaol nodi o'r cofnodion a adolygwyd gennym na welsom unrhyw ddefnydd gormodol o feddyginiaeth wrthseicotig neu feddyginiaeth yn ôl y galw,² ac y cofnodwyd y rhesymau dros ddefnyddio meddyginiaeth yn ôl y galw yng nghofnodion y cleifion pan gafodd ei defnyddio.

Gwelsom nad oedd caeadau diogelwch ar finiau offer miniog wedi'u cau, nad oedd labeli olrhain wedi'u llenwi, a bod y biniau'n cael eu storio ar y llawr, gan dorri polisi'r ysbyty.

Rhaid i gaeadau diogelwch gael eu cau er mwyn atal pobl rhag anafiadau a niwed. Rhaid llenwi labeli olrhain cyn eu defnyddio gyntaf, a'u cwblhau pan fydd y bin yn llawn. Bydd hyn yn sicrhau gwaith olrhain priodol a diogel yn y man gwaredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod yr oergell yn yr ystafell glinigol wedi'i chloi pan nad oes neb yn ei defnyddio
- Bod cypyrddau clinigol yn drefnus ac yn daclus
- Bod archwiliad dyddiad dod i ben rheolaidd yn cael ei gynnal o feddyginiaeth ac y ceir gwared ar feddyginiaeth y mae ei hoes wedi darfod mewn modd amserol
- Bod yr holl staff yn gwybod pwy sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni'r rôl ail lofnod ar gyfer cyffuriau a reolir
- Bod blychau offer miniog yn cael eu storio'n briodol, gyda chaeadau diogelwch ar gau a labeli olrhain wedi'u cwblhau'n llawn

² Rhoddir meddyginiaeth yn ôl y galw pan fydd ei hangen, o'i chymharu â meddyginiaeth a roddir yn rheolaidd.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gan atgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Yn ystod trafodaethau â staff, roeddent yn gallu dangos y broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu.

Trwy sgwrsio â rheolwr yr ysbyty, roedd yn amlwg bod yr ysbyty wedi meithrin perthynas waith agos â'r awdurdod lleol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom un claf benywaidd yn mynd i mewn i'r uned i ddyinion. Ni wnaeth y staff ailgyfeirio'r claf benywaidd, a oedd yn parhau i aros yn yr ardal hon. Roedd arwydd yn nodi na ddylai unrhyw gleifion benywaidd fynd y tu hwnt i'r pwynt hwn. Mae'n bwysig bod staff yn monitro hyn ac yn sicrhau bod cleifion yn cydymffurfio â'r rheolau ar gyfer diogelu cleifion gwrywaidd a benywaidd yn effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw cleifion benywaidd yn mynd i mewn i'r uned i ddyinion.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Cynhaliwyd archwiliadau clinigol rheolaidd yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth o archwilio cyfarpar dadebru yn rheolaidd. Roedd staff wedi dogfennu pryd roedd y rhain wedi digwydd i sicrhau bod yr offer yn bresennol a heb ddyddio.

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth frys ar gael, a oedd yn hawdd eu cyrraedd i'r staff, ac roedd tystiolaeth bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwelsom mai prin oedd gwybodaeth y staff am leoliad y silindr ocsigen, na sut i'w gyrraedd mewn argyfwng. Daethom â hyn i sylw rheolwr yr ysbyty ar unwaith. Datryswyd y mater hwn yn ystod yr arolygiad. Mae Atodiad A yr adroddiad hwn yn cynnwys rhagor o fanylion.

Yn ystod trafodaethau â staff, roedd yn amlwg bod staff yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymiadau mewn achos argyfwng. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn parhau i fonitro gwybodaeth y staff am leoliad y silindr ocsigen a sut mae cael mynediad ato.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom drefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system, a oedd yn cynnwys enwau'r claf/cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad o'r digwyddiad, ei leoliad, pryd y digwyddodd, a'i hyd.

Pan ddefnyddir ataliaeth neu leddfu geiriol, cwblheir ffurflen ddigwyddiad sy'n cael ei thrafod mewn cyfarfodydd llywodraethu. Mae staff yn derbyn ôl-drafodaeth yn dilyn digwyddiad a defnyddir y broses hon fel techneg ymarfer dysgu ac adfyfyrion a gefnogir gan y tîm amlddisgyblaethol.

Siaradodd rheolwr yr ysbyty yn angerddol am yr arfer lleiaf cyfyngol sy'n cael ei ddefnyddio yn yr ysbyty. Roedd rheolwr yr ysbyty yn annog ac yn sicrhau bod yr holl staff yn gweithio gyda chleifion tuag at gynnal model gofal lleiaf cyfyngol yn yr ysbyty.

Gwnaethom adolygu gwybodaeth am y defnydd o ymyriad corfforol yn yr ysbyty. Roedd hyn yn dangos bod angen ymyriad corfforol yn anaml yn yr ysbyty. Roedd hyn yn dangos bod y defnydd o fodel gofal lleiaf cyfyngol yn effeithiol yn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad therapiwtig rhwng staff a chleifion, a oedd yn creu awyrgylch ymlaciol a digynnwrf.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn ddogfennaeth bapur yn bennaf ac yn cael eu storio'n ddiogel mewn swyddfeydd dan glo i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd; lle'r oedd cofnodion electronig, roedd y rhain wedi'u diogelu gan gyfrinair. Gwelsom staff yn diweddarau ac yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion yn drefnus ac yn hawdd eu llywio.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cyfnod cadw statudol tri chlaf yn yr ysbyty.

Roedd pob achos o gadw claf yn gyfreithlon, wedi'i ddogfennu'n dda, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

Roedd cofnodion a dogfennau wedi'u storio'n ddiogel a'u cadw yn swyddfa gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu llywio, ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Roedd rheolwr yr ysbyty a'r cyfarwyddwr clinigol yn cyflawni rôl gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl dros dro, ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Roedd yr ysbyty wedi penodi aelod newydd o staff, oedd i fod i ddechrau'r rôl.

Roedd pob absenoldeb claf wedi'i awdurdodi gan y clinigydd â chyfrifoldeb ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb adran 17. Roedd absenoldeb adran 17 yn nodi'n glir amodau'r absenoldeb, h.y. â hebrwngwr neu heb hebrwngwr, ei leoliad a'i hyd. Roedd ffurflenni hefyd yn nodi bod cleifion yn cael cynnig ac yn cael copi o'u ffurflenni absenoldeb adran 17.

Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant yn y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac mae hyfforddiant iechyd meddwl penodol yn rhan o fodiwlau hyfforddiant gorfodol staff.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o ddau glaf, ac roedd pob un ohonynt wedi'u cynnal i safon resymol. Roedd y nodiadau'n gynhwysfawr a chafodd offerynnau asesu cydnabyddedig eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Roedd tystiolaeth glir o gyfranogiad amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal, a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Fodd bynnag, gwnaethom nodi yng nghofnod un claf nad oedd yr asesiad ôl-atgyfeiriad yn adlewyrchu meini prawf y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Yn ogystal, gwnaethom nodi hefyd restr wirio asesu 12 wythnos wedi'i chwblhau'n rhannol. Er hynny, roedd y ddogfen yn gynhwysfawr iawn ac yn darparu fframwaith da ar gyfer sicrhau asesiadau o anghenion cleifion. Gwelsom nad oedd y ddogfen asesu wedi'i chwblhau y tu hwnt i wythnos 1, nad oedd dyddiad arni, ac nad oedd enw'r claf wedi'i gwblhau.

Gwelsom hefyd fod cynllun gofal a thriniaeth un claf wedi'i gwblhau pan oedd y claf mewn lleoliad gwahanol ac nad oedd yn berthnasol i'r lleoliad presennol. Yn

ogystal, roedd y claf hwn wedi gwrthod monitro iechyd corfforol ers iddo gael ei dderbyn. Roedd y dogfennau a adolygwyd gennym yn awgrymu y gofynnir i'r claf bob mis a yw wedi newid ei feddwl ar fonitro iechyd corfforol. Ers mis Awst 2021, nid oedd unrhyw dystiolaeth o fonitro iechyd corfforol yn cael ei gynnig i'r claf.

Mae'r meddyg teulu fel arfer yn mynychu'r ysbyty bob wythnos i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon iechyd corfforol. Fodd bynnag, nodwyd yng nghofnodion un claf nad oedd asesiad iechyd corfforol wedi'i gwblhau tan naw mis ar ôl ei dderbyn. Mae'n bwysig bod asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cwblhau a'u dogfennu mewn modd amserol fel bod anghenion iechyd cleifion yn cael eu monitro a'u diwallu.

Roedd ffeiliau iechyd corfforol yn cynnwys dogfennau monitro safonol fel Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaetho (NEWS) I³ ac Offeryn Sgrinio Diffyg Maethiad Cyffredinol (MUST).⁴

Mewn cynllun gofal un claf, roedd yn nodi bod meddyginiaeth yn cael ei thrafod yn ystod cyfarfod adolygu misol. Fodd bynnag, dangosodd meddyginiaeth a ragnodwyd rhwng cyfarfodydd mis Ionawr a mis Chwefror 2022 ostyngiad yn y feddyginiaeth depo a ragnodwyd i'r claf. Roedd y nodiadau a gofnodwyd yng nghofnod adolygu'r claf yn dangos bod y claf yn parhau i fod yn sâl. Nid oedd unrhyw resymeg wedi'i dogfennu yn y nodiadau na chofnodion y cyfarfod adolygu i egluro'r penderfyniad hwn i leihau'r feddyginiaeth depo. Mae'n bwysig bod unrhyw newidiadau mewn dosau meddyginiaeth yn cael eu dogfennu a bod y rhesymau dros y newidiadau'n cael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion cleifion.

³ Mae'r Sgôr Rhybudd Cynnar Genedlaethol yn ganllaw a ddefnyddir gan wasanaethau meddygol i bennu graddau salwch claf yn gyflym. Mae'n seiliedig ar yr arwyddion hanfodol megis cyfradd anadlol, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, ac ymateb AVPU (effro, geiriol, poen, anymatebol).

⁴ Mae MUST (Offeryn Sgrinio Diffyg Maethiad Cyffredinol) yn broses pum cam i nodi oedolion sydd heb gael digon o faeth, neu sydd mewn perygl o heb gael digon o faeth, neu bobl sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod asesiadau iechyd corfforol a gwblhawyd yn cael eu cynnal mewn modd amserol
- Bod gwiriadau asesu yn cael eu cwblhau a'u dyddio ac yn cynnwys enw'r claf
- Bod yr holl wiriadau iechyd corfforol yn cael eu dogfennu yn nodiadau cleifion
- Bod cynigion o wiriadau iechyd corfforol yn cael eu cofnodi
- Bod unrhyw newidiadau i feddyginiaeth yn cael eu dogfennu, eu cyfiawnhau a'u rhesymoli yng nghofnodion cleifion

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd dogfennaeth ar gyfer y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith a oedd yn sicrhau dilysrwydd awdurdodiadau o dan y trefniadau hyn. Roedd cynlluniau gofal ar gyfer y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid hefyd ar waith i lywio staff wrth reoli'r claf o dan y trefniadau diogelu hyn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Roedd recriwtio yn cael ei gynnal mewn proses agored a theg gyda gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Roedd rheolwr yr ysbyty yn ymroddedig ac yn dangos arweinyddiaeth angerddol, gyda chefnogaeth tîm amlddisgyblaethol ymroddedig.

Roedd cyfraddau hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth a chwblhau arfarniadau blynyddol yn uchel yn gyffredinol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn drwy raglen archwilio barhaus a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau o staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol yn cael ei harddangos gan reolwr yr ysbyty, a oedd yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Roedd y tîm yn grŵp cydlynol o arweinwyr, a dangosodd cyfweiliadau â nhw eu bod yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am y staff a'r cleifion.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff yn yr ysbyty'n fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith i ddelio â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd i staff o gwynion a digwyddiadau yn yr ysbyty a'r sefydliad ehangach. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff yn yr ysbyty a chanfuom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd cydymffurfedd hyfforddiant ar gyfer cynnal bywyd sylfaenol yn isel (40%), roedd hyfforddiant tân yn 49%, ac roedd codi a chario yn 51%. Fodd bynnag, roedd rheolwr yr ysbyty yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod staff eisoes wedi cadw lle ar y cyrsiau hyn. Serch hynny, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith i atal cydymffurfedd isel â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Roedd rhaglen hyfforddi er mwyn i'r staff dderbyn diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau a manylion cydymffurfedd staff unigol i'r uwch-reolwyr.

Mae arfarniadau staff yn digwydd yn flynyddol yn seiliedig ar ddyddiadau dechrau staff. Cedwir copiâu o ddogfennau arfarnu staff mewn ffeiliau staff unigol. Mae rheolwyr llinell yn tueddu i fonitro cydymffurfedd ynghyd â rheolwr yr ysbyty, sy'n cadw cofnodion i sicrhau bod staff yn cydymffurfio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith i atal cydymffurfedd isel â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod recriwtio'n digwydd drwy broses agored a theg. Cyn i staff gael eu cyflogi, mae geirdaon staff a dderbyniwyd, ynghyd â gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i gyd yn cael eu gwirio.

Roedd staff newydd eu penodi yn ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal.

Gwnaethom adolygu'r sefydliad staffio yn Neuadd Coed Du, ac roedd yr ysbyty'n mynd ati'n rhagweithiol i geisio recriwtio i swyddi nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd gwag. I wneud iawn am unrhyw ddiffygion o ran cyflawni'r rota staffio a allai ddigwydd oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system banc staff ar waith, ynghyd â'r defnydd o staff asiantaeth. Roedd nyrsys cofrestredig o asiantaethau fel arfer yn unigolion cyson a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a chyda'r grŵp cleifion; roedd hyn yn helpu gyda pharhad gofal i gleifion.

Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw fod y lefelau staffio yn ddigonol o ystyried lefel y ddibyniaeth ar adeg yr arolygiad. Roedd rhai swyddi gwag yn yr ysbyty, a oedd yn cynnwys dwy nyrs gofrestrredig, pedair rôl cymorth gofal iechyd, therapïdd galwedigaethol, a rôl cadw tŷ.

Disgrifiodd reolwr yr ysbyty drefniadau cynllunio gweithlu'r ysbyty yn y dyfodol i lenwi'r swyddi hyn ac, ar adeg yr arolygiad, roedd rheolwr yr ysbyty wrthi'n ceisio llenwi'r swyddi gwag presennol.

Ar adeg ein hymweliad nos, roedd un aelod o staff wedi methu â dod i'r gwaith. Yn ogystal, fe wnaethom nodi mai dim ond un nyrs gofrestrredig yn ystod y shifft nos fyddai'n gweithio gyda thîm o weithwyr cymorth gofal iechyd. Rhaid bod digon o staff nyrsio ar waith bob amser, gan gynnwys wrth gyflenwi yn ystod egwylliau staff; byddai'r trefniant presennol yn golygu bod y nyrs sy'n gweithio'r shifft nos naill ai ddim yn cymryd egwyl neu fod yr uned yn cael ei gadael heb ofal nyrsio pan gymerir egwyl. Gall peidio â chymryd egwyl arwain at flinder a gallai effeithio ar lesiant y nyrs a/neu beryglu ei barn broffesiynol a gadael yr uned heb staff nyrsio.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith ar gyfer staff i leisio unrhyw bryderon. Roedd cefnogaeth iechyd galwedigaethol hefyd ar gael ac roedd staff yn canmol y gefnogaeth lles a ddarparwyd gan y tîm rheoli. Roedd systemau da ar waith.

Yn ystod cyfweiliadau â staff, dywedwyd wrthym mai cyfyngedig oedd y manau tawel i staff gymryd egwyl. Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ardal arall yn rhywle arall yn yr ysbyty i staff gael egwyl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod nyrsys shifft nos yn cael cyfle i gael egwyl pryd bwyd
- Bod gan yr holl staff fynediad i ystafell dawel i ffwrdd o'r unedau

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Pan nodir unrhyw achosion difrifol gennym o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Fel arfer, mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn arolygiadau dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom mai prin oedd gwybodaeth y staff am leoliad y silindr ocsigen a sut i'w gyrraedd mewn argyfwng.	Ni fyddai cleifion yn cael triniaeth ocsigen mewn modd amserol.	Tynnwyd sylw rheolwr yr ysbyty at y mater hwn ar unwaith.	Darparodd rheolwr yr ysbyty sesiwn friffio i'r holl staff ar ble mae'r silindr ocsigen yn cael ei gadw a sut i'w gyrraedd. Cafodd posteri eu harddangos yn yr ysbyty. Ychwanegwyd y silindr ocsigen at restr gwirio offer dadebru.

Atodiad B – Cynllun gwella – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Gwasanaeth: Ysbyty Neuadd Coed Du

Ward/uned(au): Unedau Ynn, Ffawydd a Chedrwydd

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror – 2 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysfyrddau'n cael eu diweddarau.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r hysbysfyrddau wedi'u diweddarau ac mae'r holl wybodaeth sydd wedi dyddio wedi'i disodli.	Tîm therapi galwedigaethol	Cwblhawyd 20/02/22
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cadw gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn swyddfa'r nyrsys.	10. Urddas a pharch	Mae swyddfa'r nyrsys yn cael ei hadnewyddu ac, fel rhan o'r gwaith hwn, caiff haen adlewyrchol ei gosod ar ffenestri'r swyddfa i sicrhau cyfrinachedd.	Tîm cynnal a chadw	29 Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod staff yn gallu gwirio lles cleifion yn eu hystafelloedd gwely heb fawr ddim amhariad.	10. Urddas a pharch	Mae hyn wedi cael ei ystyried. Trafodaeth i'w chynnal gyda chleifion i gael eu barn. Mae rhai cleifion eisoes wedi nodi nad ydyn nhw eisiau ffenestr yn eu drws.	Tîm therapi galwedigaethol, rheolwr	29 Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn ddwyieithog.	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	Wrth ddiweddarau'r hysbysfyddau, mae arwyddion dwyieithog wedi'u cynnwys. Mwy o arwyddion dwyieithog i'w hychwanegu.	Tîm therapi galwedigaethol	Wedi'i gwblhau'n rhannol 29 Ebrill 2022
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio larymau personol.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau cynllunio at argyfyngau	Bydd y nyrs â gofal yn gwirio ar bob trosglwyddiad bod gan yr holl staff larymau personol. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf i'r tîm staff. Gwiriadau ar hap o bryd i'w gilydd gan y tîm cynnal a chadw.	Nyrs â gofal, rheolwr, tîm cynnal a chadw	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manau galw nyrsys yn cael eu lleoli'n briodol mewn ystafelloedd ymolchi, o fewn cyrraedd cleifion.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae cord galw nyrs yn y fan a'r lle yn yr ystafelloedd ymolchi o fewn cyrraedd i'r bath a chord ychwanegol i'w ychwanegu at ardal y toiledau.	Rheolwr a thîm cynnal a chadw	29 Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau pwyntiau clymu yn fwy manwl ac yn cynnwys cynllun gweithredu a rheoli mewn perthynas â risgiau a nodwyd.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Aseiad risg a chynllun rheoli pwyntiau clymu wedi'u hadolygu a chamau gweithredu wedi'u dirprwyo i unigolion priodol. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu manylach a chynllun rheoli sy'n cynnwys graddfeydd amser.	Rheolwr a thîm nyrsio	Wedi'i gwblhau a'i adolygu'n fisol
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael eu storio'n ddiogel.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r holl ddiffoddwyr tân yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r canllawiau.	Tîm cynnal a chadw Pob aelod o staff	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod drysau'r ysbyty'n lân ac yn cael eu hailbaentio.	12. Yr amgylchedd	Amserlen cynnal a chadw sy'n cynnwys ailbaentio. Mae drysau a manau cymunol cleifion yn flaenoriaeth.	Tîm cynnal a chadw	Diwedd Mai 2022
Bod ardaloedd cymunol cleifion yn cael eu hailbaentio.	12. Yr amgylchedd	Amserlen cynnal a chadw sy'n cynnwys ailbaentio. Mae drysau a manau cymunol cleifion yn flaenoriaeth.	Tîm cynnal a chadw	Diwedd Mai 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y golchdy a'r ystafell ymolchi yn Uned Ynn yn cael eu glanhau.		Glanhawyd yr ardaloedd hyn pan nodwyd bod problem. Hefyd, mae amserlen lanhau yn ei lle. Un swydd ddomestig ran-amser wedi'i chynnig ac un cyfweliad ar gyfer rôl amser llawn wedi'i gwblhau a rôl amser llawn wedi'i chynnig a'i derbyn. Bydd deiliaid y swyddi yn dechrau yn dilyn gwiriadau cyflogaeth.	Gweinyddol, rheolwr	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y swydd cadw tŷ wag yn cael ei llenwi.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae cyfweliadau wedi'u cynnal. Un swydd ddomestig ran-amser wedi'i chynnig ac un swydd ddomestig amser llawn wedi'i chynnig a'i derbyn. Bydd deiliaid y swyddi yn dechrau yn dilyn gwiriadau cyflogaeth.	Rheolwr	22 Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr oergell yn yr ystafell glinigol wedi'i chloi pan nad oes neb yn ei defnyddio.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae rhestr wirio Cofnod Rhoi Meddyginiaeth 10 pwynt wedi'i chyflwyno ac mae un adran yn gwirio bod yr oergell wedi'i chloi. Cwblheir hyn bob dydd ac mae'n cael ei fonitro gan yr arweinydd/rheolwr clinigol.	Rheolwr a nyrs â gofal	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cypyrddau clinigol yn drefnus ac yn daclus.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r clinig wedi'i dacluso ac mae silffoedd wedi'u hychwanegu i gadw'r ystafell yn drefnus ac yn daclus.	Nyrs â gofal a thîm cynnal a chadw	29 Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliad dyddiad dod i ben rheolaidd yn cael ei gynnal o feddyginiaeth ac y ceir gwared ar feddyginiaeth y mae ei hoes wedi darfod mewn modd amserol.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Mae hyn wedi'i gynnwys yn y gwiriad Cofnod Rhoi Meddyginiaeth 10 pwynt.	Nyrs â gofal	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn gwybod pwy sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni'r rôl ail lofnod ar gyfer cyffuriau a reolir.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Rhestr o'r rhai sy'n gallu rhoi ail lofnod i'w gosod yn y clinig ar gyfer staff awdurdodedig/hyfforddedig.	Arweinydd/dirprw y glinigol y nyrs â gofal	29 Ebrill 2022
Bod yr holl flychau offer miniog yn cael eu storio'n briodol, gyda chaeadau diogelwch ar gau a labeli olrhain wedi'u cwblhau'n llawn.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Silff fach i'w gosod yn y fan a'r lle i gadw pob blwch offer miniog oddi ar y llawr. Silffoedd i'w hychwanegu hefyd i storio ffeiliau a rhyddhau lle.	Cynnal a chadw	29 Ebrill 2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw cleifion benywaidd yn mynd i mewn i'r uned i ddynton.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Cloeon magnetig drws i'w hailosod a bandiau mynediad i'w darparu i bob claf ar gyfer y ward y maent yn byw ynddi. Bydd hyn yn atal merched rhag mynd i'r ward i ddynton ac i'r gwrthwyneb.	Cynnal a chadw a rheolwr	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn parhau i fonitro gwybodaeth y staff am leoliad y silindr ocsigen a sut mae cael mynediad ato.	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae mwy o arwyddion wedi'u darparu ac maent yn weladwy i bawb eu gweld. Bydd nodyn atgoffa yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd staff misol.	Rheolwr	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau iechyd corfforol a gwblhawyd yn cael eu cynnal mewn modd amserol.	20. Rheoli cofnodion	Monitro iechyd corfforol cleifion yn fisol ar waith. Nyrs allweddol yn cymryd perchnogaeth o'r dasg. Cwblheir y rhain yn fisol fel mater o drefn a chânt eu cofnodi yn adroddiad y tîm amlddisgyblaethol. Bydd y cofnodion hyn bellach yn cael eu cynnwys yn nodiadau'r cleifion. Gwiriadau ar hap misol i'w cwblhau gan y rheolwr/dirprwy. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd nyrsys ac archwiliad cynllun gofal misol.	Nyrs allweddol a rheolwr	Wedi'i gwblhau ac yn cael ei fonitro'n barhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau asesu yn cael eu cwblhau a'u dyddio a'u bod yn cynnwys enw'r claf.	20. Rheoli cofnodion	Cwblheir gwiriadau asesu o leiaf bob mis oni bai y gofynnir iddynt gael eu monitro'n fwy rheolaidd. Cwblheir y rhain fel rhan o adroddiad y tîm amlddisgyblaethol. Bydd hyn bellach yn cael ei gynnwys yn nodiadau dyddiol y claf. Gwiriadau ar hap i'w cwblhau gan y rheolwr/dirprwy yn	Nyrs allweddol a rheolwr	Wedi'i gwblhau ac yn cael ei fonitro'n barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		fisol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn cyfarfodydd nyrsys ac archwiliad cynllun gofal misol.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wiriadau iechyd corfforol yn cael eu dogfennu yn nodiadau cleifion.	20. Rheoli cofnodion	Mae hyn bellach yn ei le a bydd yn cael ei gwblhau'n gyson wrth symud ymlaen. Gwiriadau ar hap misol gan reolwr/dirprwy.	Nyrs allweddol a rheolwr	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynigion o wiriadau iechyd corfforol yn cael eu cofnodi.	20. Rheoli cofnodion	Mae hyn bellach yn ei le wrth symud ymlaen. Bydd y rheolwr/dirprwy yn cwblhau hapwiriadau misol i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau'n gyson.	Nyrs allweddol a rheolwr	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw newidiadau i feddyginiaeth yn cael eu dogfennu, eu cyfiawnhau a'u rhesymoli yng nghofnodion cleifion.	20. Rheoli cofnodion	Bydd unrhyw newidiadau i feddyginiaeth yn cael eu cynnwys yn nodiadau dyddiol y claf. Rheolwr/dirprwy i gwblhau hapwiriadau bob mis.	Dr Tanti a rheolwr/dirprwy	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio â chyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol	Mae un aelod o staff yn cymryd yr awenau o ran monitro ystadegau hyfforddi a chadw lle ar gyrsiau hyfforddiant i bobl pan fydd angen. Mae e-ddysgu hefyd yn cael ei fonitro a bydd	Gweinyddwr rheolwr a	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		staff yn cael eu hatgoffa pan fydd ar fin dod i ben. Mae gan staff hefyd yr opsiwn o gwblhau modiwlau e-ddysgu gartref a gallant ennill goramser ar gyfer hyn. Gweinyddwr i roi diweddariad misol i'r rheolwr.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nyrsys shifft nos yn cael cyfle i gael egwyl pryd bwyd a bod yr holl staff yn gallu mynd i ystafell dawel i ffwrdd o'r unedau.	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Wrth siarad â staff, maent yn cadarnhau bod nyrsys shifft nos yn cael egwyliu trwy gydol y shifft nos, rhwng tasgau. Mae yna nifer o ystafelloedd i gael mynediad lle gellir cynnal amser a phreifatrwydd.	Rheolwr	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Christian Bradford

Swydd: Rheolwr yr ysbyty

Dyddiad: 21 Ebrill 2022